# MYFYRWYR NYRSIO /BYDWREIGIAETH PROSES DWYSÁU PRYDERON YN YSTOD LLEOLIADAU YMARFER

# STUDENT NURSE / MIDWIFE ESCALATION OF CONCERN PROCESS DURING PRACTICE PLACEMENT

## Cyflwyniad

Gall fod gan fyfyriwr nyrsio neu fydwreigiaeth, ar unrhyw adeg, bryder yn ymwneud â'u lleoliad ymarfer. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses i'w dilyn i sicrhau y bydd unrhyw bryderon a godir yn cael eu hymchwilio a'u rheoli'n briodol yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd. Nid yw'r ddogfen bolisi hon yn mewn unrhyw ffordd yn newid yr angen i bob Myfyriwr Nyrsio neu Fydwreigiaeth adrodd am ddamweiniau Iechyd a Diogelwch neu ddamweiniau y bu bron iddynt â digwydd yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch HS01 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod bod gan bob Myfyriwr Nyrsio a Bydwreigiaeth ar leoliad ymarfer ddyletswydd a hawl i fynegi pryderon ynglŷn ag ymarfer drwy eu dwyn i sylw'r rhai sy'n gallu gwneud rhywbeth yn eu cylch. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Pholisi Codi Pryder Staff/Chwythu'r Chwiban, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a pholisïau chwythu'r chwiban Prifysgol Bangor.

Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod bod safonau ymarfer uchel yn hanfodol os yw cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i gael eu diogelu ac os yw myfyrwyr i weithio mewn amgylchedd diogel a boddhaus. Gall creu diwylliant agored sy'n croesawu beirniadaeth adeiladol gynyddu hyder o ran penderfyniad y Bwrdd Iechyd i wella ansawdd. Fel arall, gallai caniatáu i bryderon fodoli heb ymchwilio iddynt na gweithredu yn eu cylch arwain at wasanaethau o ansawdd gwael, at forâl isel, ac mewn rhai achosion, at ymgyfreitha.

Bydd unrhyw bryder am weithwyr proffesiynol neu bryder bod plentyn neu oedolyn yn cael eu cam-drin yn dod yn awtomatig o dan y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant agored i niwed neu amddiffyn oedolion agored i niwed a dylid cadw at fersiwn rhanbarthol Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Pryderon Proffesiynol o ran Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac adrodd i dîm Diogelu Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd y tîm yn gallu cynnig cyngor a chymorth i'r myfyriwr ac i'r tiwtor ynglŷn â chwblhau atgyfeiriad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

## Egwyddorion Sylfaenol

- Bydd holl staff y bartneriaeth yn annog ac yn cynorthwyo i ddatblygu cyfathrebu da ac amgylchedd dysgu agored a chefnogol
- Gall defnyddwyr gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd, cyn belled ag y bo modd, fod yn sicr y disgwylir y safonau gwasanaeth uchaf a bod cyfleusterau yn eu lle i ganiatáu i Fyfyrwyr Nyrsio / Bydwreigiaeth godi pryderon os na chaiff y safonau hynny eu cyrraedd
- Bydd Myfyrwyr Nyrsio, Myfyrwyr Bydwreigiaeth a Staff y Brifysgol yn cael eu hannog i godi pryder gyda mentoriaid a/neu reolwr lleoliad ymarfer i ddechrau
- Gall Myfyrwyr Nyrsio, Myfyrwyr Bydwreigiaeth a Staff y Brifysgol sy'n codi pryder am ymarfer annerbyniol ddisgwyl y cynhelir ymchwiliad i'r ymarfer hwnnw heb ofni cael eu cosbi am godi'r pryderon
- Bydd unrhyw bryderon yn cael eu trin yn brydlon ac yn sensitif a chyda chyfrinachedd priodol.
- Bydd yr uwch staff y mae'n ofynnol dweud wrthynt yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw faterion a allai effeithio ar leoliadau clinigol
- Bydd asesiad risg ar y cyd yn cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd a'r Brifysgol pan ddynodir bod angen dwysáu pryder am ardal lleoliad clinigol
- Bydd yr achwynydd a holl staff perthnasol y Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am gynnydd ac am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad mewnol, gan sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei barchu a bod ymchwiliadau'n cael eu harwain gan drydydd parti

## Y Broses o Ddwysáu Pryderon

Dylid trafod unrhyw bryderon, ac eithrio pryderon sy'n ymwneud ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed neu â Diogelu Plant Agored i Niwed, yn y lle cyntaf, gyda mentor a / neu'r person yng ngofal y lleoliad ymarfer yn y gobaith y gellir datrys y pryderon yn gynnar. **(Siart Llif A).**

Os yw pryder heb ei ddatrys, yn ymwneud ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed neu â Diogelu Plant Agored i Niwed, neu os na ellir trafod y pryderon gyda mentor a / neu'r person yng ngofal y lleoliad ymarfer, dylid cysylltu â'r Tiwtor Cyswllt / Tiwtor Personol **(Siart Llif B)**

## Introduction

A student nurse or midwife may, at any time, have a concern relating to their practice placement. This policy sets out the process to follow to ensure that any concern raised is investigated and managed appropriately in accordance with both University and Health Board policy and procedure. This policy document does not in any way alter the need for all Student Nurses or Midwives to report Health and Safety accidents or near misses in accordance with the BCUHB HS01 Health and Safety Policy.

All partners recognise that all Student Nurses and Student Midwives on practice placement, have a duty and a right to raise concerns about practice by bringing them to the attention of those that are able to do something about them. This document should be read in conjunction with the BCUHB WP4 Raising Staff Concern/Whistleblowing Policy and Bangor University whistleblowing policies.

All partners recognise that high standards of practice are essential if patients and service users are to be protected and if students are to work in a safe and fulfilling environment. Creating a culture of openness and one that welcomes constructive criticism, can increase confidence in the Health Boards determination to improve quality. Alternatively, allowing concerns to remain without being investigated and acted upon can lead to poor quality services, low morale, and in some cases litigation.

A concern regarding professionals, child or adult abuse automatically falls into the safeguarding of vulnerable children or the protection of vulnerable children adults (POVA) and should adhere to the regional version of the “All Wales Protection of Vulnerable Adults Professional Concerns” protocol and should be reported to the Betsi Cadwaladr University Safeguarding team. The team will be able to offer both student and tutor advice and support regarding completing a POVA referral.

## Underlying Principles

- All partnership staff will encourage and assist in developing good communications and an open and supportive learning environment
- Health Board service users will, so far as is possible, be assured that the highest standards of service are expected and that facilities are in place to allow Student Nurses/Midwives to raise concerns if these are not met
- Student Nurses, Student Midwives and University staff will be encouraged to initially raise concern with mentors and/or practice placement manager
- Student Nurses, Student Midwives and University staff member who raises a concern about unacceptable practice can expect these to be investigated without fear of being penalised for raising them
- All concerns will be dealt with promptly and sensitively and with appropriate confidentiality.
- Required senior staff in both the School of Healthcare Sciences and BCUHB will be informed promptly regarding any issues that may impact on clinical placements
- A joint risk assessment will be undertaken by the Health Board and University where a clinical placement area has been identified as requiring escalation
- The complainant and all relevant University and Health Board staff will be informed of progress and of the outcomes of any internal investigation, ensuring confidentially is respected and that investigations that are led by a third party

## Escalation Process

Any concerns, other than those relating to POVA or safeguarding vulnerable children, should initially be discussed with mentor and/or person in charge of the practice placement in the hope that they may be resolved at an early stage. **(Flow chart A).**

If a concern is unresolved, relating to POVA or safeguarding vulnerable children, or unable to discuss concern with mentor and/or person in charge of the practice placement, the Link Tutor / Personal Tutor should be contacted **(Flow chart B)**

## Siart Llif A


Pryder mewn perthynas â:
GOFAL CLEIFION ond NID PRYDERON SY'N YMWNEUD AG AMDDIFFYN OEDOLION AGORED I NIWED A DIOGELU PLANT AGORED I NIWED;
CEFNOGAETH MENTOR:
AMGYLCHEDD DYSGU
Trafod y pryder i ddechrau gyda mentor a/neu'r person yng ngofal y lleoliad ymarfer
Asesu Canlyniad y drafodaeth
Wedi ei datrys
Heb ei datrys
Neu
Methu â thrafod gyda mentor a/neu'r person yng ngofal y lleoliad ymarfer
Cymryd y cam angenrheidiol isod
Monitro i sicrhau yr eir i'r afael â'r pryder
Dilyn Siart Llif B

## Flow Chart A


Concern in relation to:
PATIENT CARE but NOT CONCERNS RELATING TO PROTECTION OF VULNERABLE ADULTS (POVA) or SAFEGUARDING VULNERABLE CHILDREN;
MENTOR SUPPORT:
LEARNING ENVIRONMENT
Discuss concern initially with mentor and/or person in charge of the practice placement
Assess Outcome of discussion
Resolved
Unresolved
Or
Unable to discuss with mentor and/or person in charge of practice placement
Take required action below
Monitor to ensure concern addressed
Follow Flowchart B

## Siart Llif B


Pryder
• Os yw'n ymwneud â Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed neu â Diogelu Plant Agored i Niwed neu os oes pryder heb ei ddatrys mewn perthynas â:
• CEFNOGAETH MENTOR:
• YR AMGYLCHEDD DYSGU
Adrodd Cychwynnol gan y Myfyriwr
• Cysylltu a thrafod pryder gyda'r Tiwtor Cyswllt / Tiwtor Personol a fydd yn:
• Darparu cyngor a chefnogaeth cychwynnol / parhaus
• Gwneud cais am ddatganiad ysgrifenedig gan y myfyriwr – i'w gyflwyno yn dilyn cael cymeradwyaeth yr undeb
Tiwtor Cyswllt/ Tiwtor Personol yn Adrodd
• Bydd y Tiwtor Cyswllt / Tiwtor Personol yn rhoi gwybod i'r Uwch Addysgwr / Arweinydd Proffesiynol ac i'r Prif Fydwraig Addysg os yw'n lleoliad bydwreigiaeth
Dwysáu
• Bydd y Prif Addysgwr/Arweinydd Proffesiynol yn dwysáu i Gyfarwyddwr Cyswllt Rheoleiddio Proffesiynol ac Addysg a Phennaeth Addysg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ychwanegir y pryder at y Gofrestr Dwysáu Pryderon
• Os oes a wnelo'r pryder â Chartref Nyrsio adroddir am y pryder i'r Nyrs Arweiniol Gofal Sylfaenol a Chymunedol a fydd ynghlwm yn yr asesiad risg
• Os oes a wnelo'r pryder ag amddiffyn oedolion agored i niwed neu â diogelu plant agored i niwed, bydd Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael gwybod ar unwaith, gorau oll, o fewn 24 awr i godi'r pryder (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)
Cyfarfod
• Trefnu cyfarfod â'r myfyriwr (a fydd yn cael cefnogaeth lawn) i gael gwybod am y sefyllfa ac am unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen
Asesiad Risg
• Bydd yr Uwch Addysgwr/Arweinydd Proffesiynol a'r Prif Fydwraig Addysg os yw'n ymwneud â lleoliad bydwreigiaeth, ar y cyd â staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal asesiad risg ar unwaith o'r lleoliad ac yn cymryd camau priodol
• Yn dilyn yr Asesiad Risg, os oes angen, caiff y myfyriwr ei leoli mewn lleoliad arall.
• Bydd yr Uwch Addysgwr/Arweinydd Proffesiynol a'r Prif Fydwraig Addysg os yw'n ymwneud â lleoliad bydwreigiaeth, ar y cyd â staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn penderfynu a oes angen dwysáu'r pryder i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Ymchwiliad
• Bydd darparwr y lleoliad yn penodi swyddog ymchwilio ac yn cychwyn ymchwiliad
• Bydd adroddiad ynglŷn â chanlyniad yr ymchwiliad yn cael ei anfon at Gyfarwyddwr Cyswllt Rheoleiddio Proffesiynol ac Addysg a Phennaeth Addysg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a fydd yn rhoi gwybod i'r Prif Addysgwr/Arweinydd Proffesiynol, i'r Prif Fydwraig Addysg os yw'n ymwneud â lleoliad bydwreigiaeth ac i'r myfyriwr(wyr) am ganlyniad yr ymchwiliad
Ar ôl yr ymchwiliad
• Ar ddiwedd yr ymchwiliad:
• Ystyrir anghenion addysgol a chefnogaeth briodol i staff y lleoliad ymarfer
• Cynhelir archwiliad addysgol - os cafodd y lleoliad ymarfer ei dynnu o'r cylch o leoliadau ymarfer o'r blaen
• Ail-leoli myfyrwyr unwaith y bydd yr holl feini prawf wedi eu bodloni

# Flow Chart B


Concern
• If related to the protection of vulnerable adults (POVA) or safeguarding vulnerable children or an unresolved concern in relation to:
• MENTOR SUPPORT:
• LEARNING ENVIRONMENT
Initial Student Reporting
• Contact and discuss concern with Link Tutor / Personal Tutor who will:
• Provides initial / on-going advice and support
• Request written statement from student – to be submitted following union approval
Link Tutor / Personal Tutor Reporting
• Link Tutor / Persoanl Tutor will inform Senior Educationalist/Professional Lead and LME if midwifery placement
Escalation
• Senior Educationalist/Professional Lead will escalate to BCUHB Associate Director Professional Regulation & Education and Head of Education (HoE) and concern added to Escalation Register
• If a Nursing Home involved the concern will be reported to the Lead Nurse Primary and Community who will be invovled in the risk assessment
• If concern is relating to the protection of vulnerable adults or safeguarding vulnerable children, the BCUHB Safeguarding Team will be informed immediately, and prefereable within 24hours of the concern arising (Social Services Wellbeing (Wales) Act, 2014)
Meeting
• Meeting arrnaged with student (who will be fully supported.) to ascertain situation and any additional information required
Risk assessment
• Senior Educationalist/Professional Lead and LME if midwifery placement involved, in conjunction with BCUHB staff will undertake an immediate risk assessment of placement and take appropriate action
• Following Risk Assessment, if required, the student(s) to be re-allocated to an alternative placement
• Senior Educationalist/Professional Lead and LME if midwifery placement involved, in conjunction with BCUHB staff make decision on whether concern requires escalation to NMC
Investigation
• Placement provider will appoint investigating officer and initiate investigation
• Report on the outcome of the investigation will be forwarded to Associate Director Professional Regulation & Education and Head of Education (HoE) BCUHB who will inform Senior Educationalist/Professional Lead, LME if midwifery placement involved and student(s) involved, of outcome of investigation
Post investigation
• Following conclusion of the investigation:
• Educational needs and appropriate support for the practice placement staff will be considered
• Educational Audit will be undertaken - if the practice placement previously removed from the practice placement circuit
• Reallocation of students once all required criteria met